CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 18ed MEHEFIN 2019

YN CAPEL GAD BODFFORDD

PRESENNOL:
Cyng R R Roberts (Cadeirydd) R M Roberts (Is-Gadeirydd) J E Lewis, E W Roberts, E D Owen, J Evans, Cyng Sirol Mrs N Roberts, R G Parry ar Clerc D Owen.

YMDDIHEURIADAU: Cyng H G Owen, E Williams, W R Parry, D T Roberts.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Cyng J E Lewis. Rhif 6. Cyng Sirol Mrs N Roberts. Cynllunio.

CAEL COFNODION 21ain MAI 2019 YN GYWIR. Cynnig Cyng R M Roberts, eilio Cyng E W Roberts.

Cyng H G Owen yn diolch i'r Cyngor am lythyr yn gwethfawrogi ei waith fel Cadeirydd am 2018 / 19 ac yn dymuno gwellhad buan. Hefyd ei wraig sydd ddim mewn iechyd da.

MATERION YN CODI O'R COFNODION.
Y Fynwent Gymunedol, Bodffordd. Dim mwy i'w adrodd.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. FPL/2019/4. Cais llawn ar gyfer addasu ag ehangu sydd yn cynnwys balconi yn:-
   Yr Eifl, Bodffordd.
   Dim gwrthwynebiad. Cynnig Cyng J E Lewis, eilio Cyng E W Roberts.

PENDERFYNIADAU:

2. Dim.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

3. Rheolwr Rheolaeth Datblygu.
   Deddf Diolgelu Data - Ymgynghoriad Cynllunio. Derbyn.

4. Swyddog Gwasanaethau Etholiadol.
   Rhybudd Cyhoeddus - Rheoliadau Adolygu Rhanbarthau Pleidleisio a Lleoedd Pleidleisio (Etholiadau Seneddol 2006) Derbyn a rhoi i fynnu.

5. Pennaeth Dysgu.
   Pwysig - Moderneiddio Ysgolion / Ardal Seiriol. Derbyn y wybodaeth.

6. Prif Swyddog Gwarchod y Cyhoedd.
   Golwg Honedig y tu allan i Ty Hen Newydd, Bodffordd.
   Dau Swyddog o'r Cyngor a'r safle a'r ardal gyfagos er mwyn ystyried y pryderon a godwyd.
   Ceir ty allan wedi ei lleoli yn yr eiddo.
   Nid yn bosib gorfodi'r perchennog i'w symud. Wedi ei lleoli ar dir preifat.
   Llwyni ar y llwybr cyhoeddus.
   Yn ymddangos fod yr holl lwyni o amgylch yr eiddo wedi ei torri yn ol. (Os oes problam yn codi eto yn y dyfodol bydd rhaid ail gysylltu)
   Llygod Mawr.
   Bydd rhaid profi pa eiddo oedd ffynhonnell y broblem (Dwy fferm wedi ei lleoli ger yr eiddo)
   Bwriadu ysgrifennu at bob eiddo yn ardal y ddwy fferm yn gofyn iddynt pwy sydd yn fodlon cynorthwyo yr ymchwiliad drwy gael gosod bocsys abwyd ar eu heiddo.

Baw Ci.
Warden cwn yn ymweld a`r safle er mwyn cynnal asesiad a chymryd camau dilynol.
Edrychiad Ty Hen.
Os oes barn fod problam yn parhau ar ffordd mae Ty Hen yn edrych a bod yn cael effaith andwyol ar amwynderau`r Gymuned gyfagos. Bydd rhai cysylltu a`r Adran Gynllunio.

GOHEBIAETH (ARALL)

7. Chwarae Dros Gymru. Cylchgrawn. Derbyn.

8. Un Llais Cymru.
Modylau Dysgu ar Lein Sylfaenol. Dim sylw. Gadael.

Cyfarfod Pwyllgor Ardal Ynys Mon. 27.6.19. yn Llangefni.
Dim yn hapus ar digwyddiadau annodd cael neb i fynychu. Gofyn am bapur trwy`r Post nid E Bost.
Cyng E D Owen am fynd pan yn rhydd.

9. Medrwn Mon.
Mapio Ardal Bodffordd ar Cylch. Derbyn.

10. Pwyllgor Gwyl Bodffordd.
Dymuniad cynnal yr wyl ar gyfer codi arian tuag at Ysgol Bodffordd a`r Cylch Meithrin. (14eg Medi 2019 Caeau dros ffordd i`r Cae Chwarae)
Y Cyngor yn Cefnogi ei dymuniad. Cynnig Cyng E W Roberts, eilio Cyng E D Owen.

11. Miss Sian Ellen Pritchard, Ty Newydd, Trefor.
Anfon cais i gael adeiladu yn Cae Bach, Tynlon.
Wedi darllen ei gynnwys mae yn rhaid cael cynllun amlinelliad ai anfon i Adran Cynllunio y Cyngor Sir. Y Clerc i gynghori Miss Pritchard. Unfrydol.

RHODDION

12. Dim.

PLWYFOL.

13. Cysylltu i`r Cyngor Sir ynghylch a mynedfa i Gadair Olwyn i`r Maes Parcio i`r Llyn o Groeslon Llangwyllog (Cyng E W Roberts.

14. Cyflwr Lon Bodwrog unwaith yn rhagor. Mae PAR yn dweud na cyfrifoldeb Priffyrdd Cyngor Sir Ynys Mon ydyw. Cyng Sirol R G Parry yn trefnu cyfarfod gyda Swyddog ar y safle. Yn cysylltu a`r Clerc.

15. Congl Manhole Openreach ger Coedlys, Tynlon yn codi, peryg i rhywun sydd yn cerdded (Cyng E D Owen.

16. Place Shaping nid oes arian ar gael.

17. Angen Arwyddion ar Llwybr Cyhoeddus, Glanrafon, Bodffordd. Arwydd ar Bostyn. Cerddwyr yn cymryd y trywydd anghywir. (Cyng J E Lewis) ychwanegiad mae angen sleepres dros yr afon.

MATERION ARIANNOL:

18. Cyfrif Rhedegol £6,824.97

TALIADAU:

19. Clerc £220.83. Treth Incwm 1. £165.60. Costau Gweinyddu (3 mis) £125.66. Menter Mon (Hirio Offer Cyfieithu £25.00. Atebion Cyfrifon Mon. (Cost Rheoli 2 flynnedd) £294.00.

Derbyniwyd y balans a talwyd y dyledion i gyd Cynnig Cyng R M Roberts, eilio Cyng E W Roberts.